


CYNGOR TREF PORTHMADOG



PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU
19.00 nos Fawrth Ionawr 28ain 2025

COFNODION

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith (Cadeirydd); Trefor Jones; Gwilym Jones; Dr Melfyn Edwards; Carol Hayes; Karena Owens; Alwyn Gruffydd; Glenda Murray; Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cyng Llywelyn Rhys

E1.1.25 Ymddiheuriadau - dim

E2.1.25 Cae Pawb

Adroddodd y Clerc bod coed peryglus wedi gorfod cael eu torri rhwng Cae Pawb a thir Rheilffordd yr Ucheldir. Hefyd nodwyd bod tenant sydd wedi talu am a gofalu am randir oedd yn enw ei mab (sydd wedi marw ers 2023) wedi gwrthod clirio'r safle ar gyfer tenant newydd. Roedd wedi cytuno i'w glirio erbyn Tachwedd 2024 ond ni ddigwyddodd hyn. Cytunwyd i yrru llythyr ati i'w hysbysu bod y cytundeb yn dod i ben ac y bydd y rhandir yma yn dod yn rhydd i'w osod o 1.4.25 ymlaen.

E3.1.25 Llwybrau

Yn absenoldeb Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod tra bu trafodaeth ar gynigion y Cadeirydd.

Cyng Aled Griffith : cynnig ysgrifennu at Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i ddiolch iddynt am wella llwybr Capel Peniel.

Penderfynwyd : gweithredu ar y cynnig, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Cyng Aled Griffith : cynnig ysgrifennu at Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt wella cyflwr y llwybr rhwng fferm Penmunt â'r Clwb Chwaraeon.

Penderfynwyd : gweithredu ar y cynnig, a holi pwy'n union sydd yn gyfrifol am y llwybr, Cyng Glenda Murray yn eilio.

Dychwelodd y Cadeirydd i'r Gadair i lywyddu gweddill y cyfarfod.

E4.1.25 Cae Bodawen

Dim i'w adrodd.

E5.1.25 Bryn Coffa

Dim i'w adrodd.

E6.1.25 Llochesi Bws

Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth i ddweud bod 2 loches newydd ar restr aros Cyngor Gwynedd (Gohebiaeth yng nghyfarfod Chwefror 11)

E7.1.25 Cerflun Madocks

Diolchwyd i'r Cyng Alwyn Gruffydd am ei waith yn ysgrifennu testun i'w osod ar fwrdd gwybodaeth am William Madocks.

Penderfynwyd :- Cyng Alwyn Gruffydd a'r Cyng Glenda Murray i gydweithio i fireinio'r testun cyn ei basio 'mlaen i'r Clerc i'w gyfieithu i'r Saesneg ac yna i'w drosglwyddo i Ffion Gwyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.25

Marian Roberts

29.1.25